Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Genus Education

## Dyddiad yr arolygiad:  Mawrth 2020

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Genus Education

Mae Genus Education wedi'i gofrestru fel ysgol annibynnol i ddarparu addysg fewnol ar gyfer plant sy'n byw ym mhedwar cartref plant y cwmni nad ydynt yn gallu manteisio ar addysg prif ffrwd. Yn ddiweddar, mae'r cwmni wedi lleihau darpariaeth addysgol o bedair i dair ysgol sydd ynghlwm wrth ei gartrefi gofal. Mae ystafelloedd dosbarth ym mhob un o'r cartrefi hyn.

Agorwyd yr ysgol yn gyntaf ym mis Chwefror 2010 ac roedd yn gweithredu ar safle Ynys-y-Bwt yn unig bryd hynny. Sefydlodd y cwmni ystafell ddosbarth yn Knowle House yn 2012, a Station Cottage yn 2013.

Mae pennaeth addysg, a benodwyd ym mis Mawrth 2019, yn goruchwylio addysg ar draws safleoedd y tair ysgol. Yn ychwanegol, mae ganddo ymrwymiad addysgu amser llawn. Mae'r safleoedd yn rhannu dulliau cyffredin sy'n cynnwys polisïau ysgol, prosesau hunanwerthuso, a threfniadau ar gyfer asesu, cynllunio a chyflwyno gwersi. Mae athro amser llawn ym mhob ystafell ddosbarth.

Ym mis Tachwedd 2019, gwnaeth yr ysgol gais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru er mwyn gwneud newid perthnasol i addasu ystod oedran y disgyblion i gynnwys plant oedran cynradd. Bellach, mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 7 ac 18 oed.

Cynhaliwyd yr arolygiad llawn diwethaf gan Estyn ym mis Chwefror 2016.

## Prif ganfyddiadau

### *Cryfderau*

Mae perthnasoedd gwaith cadarnhaol a phwrpasol rhwng staff a disgyblion.  O ganlyniad, mae disgyblion yn ymgysylltu'n dda â dysgu ac yn ymgynefino'n gyflym ag arferion y diwrnod ysgol.  Mae bron pob un o'r athrawon yn defnyddio holi ac adborth yn effeithiol i wneud cynnydd ac atgyfnerthu dysgu'r disgyblion.

Mae'r cyfathrebu a'r rhyngweithio buddiol rhwng staff gofal a staff addysgu yn cefnogi lles a chynnydd disgyblion yn gryf, yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae'r ystafelloedd dosbarth ar draws safleoedd y tair ysgol yn cynnwys adnoddau da, ac yn darparu amgylcheddau dysgu ysgogol ar gyfer disgyblion.

Mae cynlluniau addysg unigol (CAUau) bron pob un o'r disgyblion yn cynnwys ystod o dargedau gwerth chweil ar gyfer gwella ar draws dysgu, ymddygiad a phresenoldeb.  Mae bron pob un o'r athrawon yn cynllunio'n dda ar gyfer cyflawni targedau CAUau disgyblion mewn gwersi.

Caiff pob un o'r disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i ddefnyddio eu medrau llythrennedd a rhifedd yn y gymuned yn rheolaidd.  Er enghraifft, cynllunio a chyllidebu taith siopa i wneud pryd o fwyd, a defnyddio amserlen fysiau i fynd i hyfforddiant pêl-droed yn annibynnol.

Mae'r pwyslais cynyddol ar ddatblygu medrau byw yn annibynnol y disgyblion yn cefnogi eu parodrwydd yn gadarnhaol ar gyfer trosglwyddo i leoliadau ar ôl yr ysgol.

### *Meysydd i'w datblygu*

Mae'r egwyliau mynych yn ystod y dydd yn effeithio ar wydnwch disgyblion a'u gallu i ymestyn yr amser y maent yn canolbwyntio ar eu dysgu.

Caiff model therapiwtig y cwmni, sy'n gweithredu yn y cartrefi gofal yn bennaf, ei rannu'n effeithiol ag athrawon, ac mae'n cynnig cyfleoedd i gyflwyno agweddau ar ddatblygiad personol a chymdeithasol disgyblion yn lleoliadau'r ysgol.  Fodd bynnag, nid yw cynllun gwaith yr ysgol wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

### Argymhellion

**Dylai'r ysgol:**

**A1. Ddarparu cynllun gwaith ar draws yr ysgol er mwyn i addysg bersonol a chymdeithasol ategu'r model therapiwtig sy'n gweithredu yn y lleoliadau cartref gofal**

**A2. Lleihau egwyliau ymddygiad yn ystod amser addysgu i ddatblygu gwydnwch disgyblion**

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Sicrhau bod prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn ystyried gwaith yr ysgol yn gyffredinol**

Ar draws yr ysgol, mae'r pennaeth addysg yn sefydlu systemau a phrosesau effeithiol i uno arferion ysgol a sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn profi gweithgareddau dysgu effeithiol sy'n gweddu i'w galluoedd.

Mae'r pennaeth addysg wedi rhoi gweithgareddau sicrhau ansawdd ar waith ym mhob ysgol. Mae calendr digwyddiadau ysgol gyfan yn gosod disgwyliadau clir o'r gweithgareddau y bydd athrawon yn cymryd rhan ynddynt drwy gydol y flwyddyn ysgol. Er enghraifft, mae systemau priodol ar waith i sicrhau bod athrawon yn olrhain ac yn monitro cynnydd disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae'r pennaeth addysg hefyd yn monitro cynnydd disgyblion ac yn cynorthwyo athrawon yn dda i sicrhau bod cynllunio ar gyfer dilyniant disgyblion yn effeithiol. O ganlyniad, mae cynlluniau gwaith a gweithgareddau cynllunio athrawon yn dod yn fwy cyson.

Mae'r defnydd priodol o becyn meddalwedd ysgol gyfan yn cryfhau'r arfer o gasglu tystiolaeth addas gan athrawon i ddangos cynnydd tuag at fodloni targedau gwella'r ysgol. Mae cyfarfodydd misol defnyddiol athrawon yn adolygu cynnydd yn unol â'r targedau hyn yn llwyddiannus.

**Argymhelliad 2: Sicrhau bod polisïau yn gyfoes ac yn adlewyrchu arferion yr ysgol yn gywir**

Ers yr ymweliad diwethaf, adolygwyd llawer o bolisïau ysgol, ac erbyn hyn, maent yn adlewyrchu arfer yr ysgol a chanllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru, er enghraifft polisïau'r ysgol ar ddiogelu a chymorth cyntaf. Mae dyddiadau adolygu bellach wedi'u cynnwys yn y polisïau hyn i sicrhau eu bod yn parhau'n gyfoes.

## Cydymffurfio â’r safonau ar gyfer cofrestru

### *Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol*

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### *Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion*

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### *Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion*

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### *Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff*

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

### *Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion*

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### *Safon 6: Darparu gwybodaeth*

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

### *Safon 7: Y modd yr eir i’r afael â chwynion*

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/05/2020